Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**PWYSIG: MAE'R CYFATHREBU HWN YN EFFEITHIO AR FUDDIANNAU MEWN EIDDO**
**PRYNU TIR GORFODOL YM MAESTEG**
**YM MWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

## GORCHYMYN PRYNU GORFODOL (CAFFAEL 44 NEATH ROAD, MAESTEG) CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR 2025

**ADRAN 17, DEDDF TAI 1990 a**
**DEDDF CAFFAEL TIR 1981**

Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (yr "awdurdod caffael") wedi gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol (Caffael 44 Neath Road, Maesteg) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2025 o dan adran 17(1)(b) o'r Ddeddf Tai 1985. Mae ar fin cyflwyno'r gorchymyn hwn i Weinidogion Cymru i'w gadarnhau, ac os caiff ei gadarnhau, bydd y gorchymyn yn awdurdodi'r awdurdod caffael i brynu'n orfodol y tir a ddisgrifir isod at ddibenion gwaredu'r tir i berson sy'n bwriadu adfer defnydd y tir, gan gynnwys y tŷ sydd wedi'i leoli arno, ar gyfer llety tai.

Gellir gweld copi o'r gorchymyn a'r map cysylltiedig ar bob adeg resymol yn Neuadd y Dref Maesteg, Stryd Talbot, Maesteg CF34 9DA neu gellir eu harchwilio ar-lein yn https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/gorchymyn-prynu-gorfodol-eiddo-gwag-hirdymor/

Rhaid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru, dan ofal Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost yn pedw.gwaithachos@llyw.cymru ar neu cyn 24 Hydref 2025 a nodi teitl y gorchymyn, sail y gwrthwynebiad, a chyfeiriad a buddiannau'r gwrthwynebydd yn y tir.

Wrth gyflwyno gwrthwynebiad, dylid nodi y bydd eich data personol a'ch gohebiaeth yn cael eu trosglwyddo gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'r awdurdod caffael er mwyn galluogi eich gwrthwynebiad i gael ei ystyried. Os bydd y gorchymyn yn destun gweithdrefnau Ymchwiliad Cyhoeddus, anfonir yr holl ohebiaeth at yr Arolygydd sy'n cynnal yr Ymchwiliad, a chaiff ei chadw yn llyfrgell yr Ymchwiliad Cyhoeddus, lle mae ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych am i'ch data personol gael ei anfon ymlaen, nodwch eich rhesymau wrth gyflwyno eich gwrthwynebiad, a bydd Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn anfon eich sylwadau i'r awdurdod caffael gyda'ch enw a'ch cyfeiriad wedi'u dileu.

**DISGRIFIAD O'R TIR**

274 metr sgwâr o'r tir a'r adeiladau cyfan yn 44 Neath Road, Maesteg CF34 9EE

**Dyddiedig: 2 Hydref 2025**

[redacted]

**Kelly Watson,**
**Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio a Swyddog Monitro**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Ffôn/Tel: 0300 123 6696 Facs/Fax: 01656 668126 Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk
Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk
Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun
Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith
We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh